O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 52

Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) 2026

Gwnaed	*25 Chwefror 2026*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2026*

W E L S H S T A T U T O R Y I N S T R U M E N T S

2026 No. 52

The Higher Education (Qualifying Courses and Qualifying Persons) (Wales) Regulations 2026

Made	*25 February 2026*
Coming into force	*1 April 2026*

£16.30

O F F E R Y N N A U S T A T U D O L C Y M R U

2026 Rhif 52

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) 2026

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn yn pennu'r cyrsiau cymhwysol a'r personau cymhwysol at ddibenion adran 32 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022 ("Deddf 2022").

Mae adran 32 o Ddeddf 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil ("y Comisiwn") sicrhau bod darparwyr addysg drydyddol sydd wedi eu cofrestru mewn categori a bennir mewn rheoliadau a wneir gan Weinidogion Cymru yn ddarostyngedig i amod terfyn ffioedd. Mae'r categori cofrestru hwnnw wedi ei bennu yn rheoliad 5 o Reoliadau'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cofrestru a Dadgofrestru Darparwyr Addysg Drydyddol yng Nghymru) 2024.

Mae amod terfyn ffioedd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr o'r fath—

(a) meddu ar ddatganiad terfyn ffioedd sydd wedi ei gymeradwyo gan y Comisiwn o dan adran 47 o Ddeddf 2022, a

(b) sicrhau nad yw'r ffioedd cwrs sy'n daladwy i'r darparwr gan berson cymhwysol sy'n ymgymryd â chwrs cymhwysol yn fwy na'r terfyn ffioedd cymwys a bennir yn y datganiad terfyn ffioedd, neu a benderfynir yn unol â'r datganiad hwnnw.

Y cyrsiau cymhwysol a bennir gan reoliad 3 yw'r cyrsiau hynny a restrir yn Amod 1 ac a ddynodir drwy reoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998. Mae dynodiad o dan y rheoliadau hynny yn golygu y gall myfyrwyr wneud cais am gymorth i fyfyrwyr mewn cysylltiad ag ymgymryd â chwrs. Mae eithriadau sy'n ymwneud â chyrsiau rhan-amser a chyrsiau a ddarperir gan bersonau ar ran darparwr cofrestredig.

Y personau cymhwysol a bennir gan reoliad 4 yw'r personau hynny sy'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r categorïau yn yr Atodlen ar ddiwrnod cyntaf y flwyddyn

academaidd berthnasol. Mae hyn yn ddarostyngedig i bum eithriad, sydd wedi eu nodi ym mharagraff (3).

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

2026 Rhif 52

ADDYSG, CYMRU

Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) 2026

Gwnaed	*25 Chwefror 2026*
Yn dod i rym	*1 Ebrill 2026*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 32(4) a (9)(b) a 143(2) o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Enwi a dod i rym

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg Uwch (Cyrsiau Cymhwysol a Phersonau Cymhwysol) (Cymru) 2026.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2026.

Dehongli

2. Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr "blwyddyn academaidd" ("*academic year*"), mewn cysylltiad â chwrs, yw blwyddyn a benderfynir fel a ganlyn—

(a) nodi'r cyfnod yng Ngholofn 2 o'r Tabl y mae'r flwyddyn academaidd yn dechrau ynddo mewn gwirionedd;

(b) y flwyddyn academaidd yw'r cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar y dyddiad a bennir yn y cofnod yng Ngholofn 1 o'r Tabl sy'n cyfateb i'r cyfnod a nodir yng Ngholofn 2.

Tabl

Colofn 1 ***Dyddiad dechrau'r flwyddyn academaidd at ddibenion y Rheoliadau hyn***	***Colofn 2*** ***Y cyfnod y mae'r flwyddyn academaidd yn dechrau ynddo***
1 Medi	Ar neu ar ôl 1 Awst ond cyn 1 Ionawr
1 Ionawr	Ar neu ar ôl 1 Ionawr ond cyn 1 Ebrill

(**1**) 2022 dsc 1.

Colofn 1 ***Dyddiad dechrau'r flwyddyn academaidd at ddibenion y Rheoliadau hyn***	***Colofn 2*** ***Y cyfnod y mae'r flwyddyn academaidd yn dechrau ynddo***
1 Ebrill	Ar neu ar ôl 1 Ebrill ond cyn 1 Gorffennaf
1 Gorffennaf	Ar neu ar ôl 1 Gorffennaf ond cyn 1 Awst

mae "cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon" ("*course of initial teacher training*") yn cynnwys cwrs o'r fath sy'n arwain at radd gyntaf;

ystyr "Deddf 1998" ("*the 1998 Act*") yw Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998(**2**);

ystyr "Deddf 2022" ("*the 2022 Act*") yw Deddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.

Cwrs cymhwysol

3.—(1) Mae cwrs cymhwysol, sydd wedi ei bennu at ddibenion adran 32(4) o Ddeddf 2022, yn gwrs—

(a) sy'n bodloni'r ddau amod ym mharagraff (2), a

(b) nad yw'n dod o fewn y naill neu'r llall o'r eithriadau ym mharagraff (3).

(2) Yr amodau yw—

Amod 1

(1) Y cwrs yw—

(a) cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon,

(b) cwrs o hyfforddiant pellach i athrawon neu weithwyr ieuenctid a chymunedol,

(c) cwrs gradd gyntaf,

(d) cwrs ar gyfer y Diploma Addysg Uwch,

(e) cwrs ar gyfer Diploma Cenedlaethol Uwch neu Dystysgrif Genedlaethol Uwch y Cyngor Addysg Busnes a Thechnegwyr, neu'r Diploma mewn Astudiaethau Rheoli,

(f) cwrs ar gyfer y Dystysgrif mewn Addysg,

(g) cwrs i baratoi at arholiad proffesiynol ar lefel uwch, neu

(h) cwrs sy'n darparu addysg ar lefel uwch (pa un a yw'n paratoi at arholiad ai peidio).

(2) At ddibenion paragraff (1)(g) o'r amod hwn, mae arholiad proffesiynol ar lefel uwch os yw ei safon yn uwch na safon arholiadau ar lefel uwch ar gyfer y Dystysgrif Addysg Gyffredinol neu'r arholiad ar gyfer Tystysgrif Genedlaethol neu Ddiploma Cenedlaethol y Cyngor Addysg Busnes a Thechnegwyr.

(3) At ddibenion paragraff (1)(h) o'r amod hwn, mae cwrs i'w ystyried yn gwrs sy'n darparu addysg ar lefel uwch os yw ei safon yn uwch na safon cyrsiau sy'n darparu addysg wrth baratoi at unrhyw un neu ragor o'r arholiadau a grybwyllir ym mharagraff (2) o'r amod hwn.

(**2**) 1998 p. 30.

Amod 2

Mae'r cwrs wedi ei ddynodi drwy reoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 1998(**3**).

(3) Yr eithriadau yw—

Eithriad 1

Mae'r cwrs yn gwrs rhan-amser.

Eithriad 2

Mae'r cwrs yn cael ei ddarparu ar ran darparwr cofrestredig gan berson nad yw—

(a) yn ddarparwr cofrestredig,

(b) wedi ei gynnwys yn y gofrestr a sefydlwyd ac a gynhelir gan y Swyddfa Fyfyrwyr o dan adran 3 o Ddeddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017(**4**), neu

(c) wedi ei gynnal nac ei gynorthwyo gan grantiau rheolaidd a ddarperir gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil(**5**).

(4) Nid yw person i'w ystyried yn un sydd wedi ei gynnal nac ei gynorthwyo gan grantiau rheolaidd at ddibenion Eithriad 2 ym mharagraff (3) dim ond oherwydd bod y person yn cael cyllid o'r fath fel corff sy'n cydlafurio.

(5) Yn y rheoliad hwn—

mae i "corff sy'n cydlafurio" ("*collaborating body*") yr ystyr a roddir gan adran 88(3), 89(4), 97(3), 104(2) neu 105(4) o Ddeddf 2022, yn ôl y digwydd;

ystyr "darparwr cofrestredig" ("*registered provider*") yw darparwr sydd wedi ei gofrestru yn y gofrestr a sefydlwyd ac a gynhelir gan y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil o dan adran 25 o Ddeddf 2022.

Person cymhwysol

4.—(1) Mae person cymhwysol, sydd wedi ei bennu at ddibenion adran 32(9) o Ddeddf 2022, yn berson—

(a) sy'n bodloni'r naill neu'r llall o'r amodau ym mharagraff (2), a

(b) nad yw'n dod o fewn unrhyw un neu ragor o'r eithriadau ym mharagraff (3).

(2) Yr amodau yw—

Amod 1

Mae'r person yn dod o fewn categori setledig—

(a) ar y diwrnod y mae tymor cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf yn dechrau mewn gwirionedd, pan mai blwyddyn academaidd gyntaf cwrs y person yw'r flwyddyn academaidd, neu

(b) fel arall, ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd o gwrs y person.

Amod 2

(**3**) 1998 p. 30. Diwygiwyd adran 22 gan Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000 (p. 21), adran 146(2) ac Atodlen 11; Deddf Treth Incwm (Enillion a Phensiynau) 2003 (p. 1), Atodlen 6, paragraff 236; Deddf Cyllid 2003 (p. 14), adran 147(3); Deddf Addysg Uwch 2004 (p. 8), adrannau 42(1) a 43 ac Atodlen 7; Deddf Prentisiaethau, Sgiliau, Plant a Dysgu 2009 (p. 22), adran 257(2); Deddf Addysg 2011 (p. 21), adran 76(1) a (2)(a); O.S. 2013/1881, Atodlen 1, paragraff 6; a Deddf Addysg Uwch ac Ymchwil 2017 (p. 29), adran 88.

(**4**) 2017 p. 29.

(**5**) Sefydlwyd y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil gan adran 1 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) 2022.

Mae'r person yn dod o fewn categori rhagnodedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd o gwrs y person.

(3) Yr eithriadau yw—

Eithriad 1

Nid yw'r person yn gymwys i gael cymorth o dan Reoliadau 2017 oherwydd rheoliad 4(3)(c), (d), (e) neu (f) o'r Rheoliadau hynny.

Eithriad 2

Nid yw'r person yn gymwys i gael cymorth o dan Reoliadau 2018 oherwydd ei fod yn berson y mae paragraff (a) yn Eithriad 3, Eithriad 4, Eithriad 5 neu Eithriad 6 yn rheoliad 10(1) o'r Rheoliadau hynny yn gymwys iddo.

Eithriad 3

Mewn cysylltiad â chwrs sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ionawr 2028—

(a) yr unig gategori setledig y mae'r person yn dod o'i fewn yw paragraff 16, neu

(b) yr unig gategori rhagnodedig y mae'r person yn dod o'i fewn yw paragraff 19 neu 20.

Eithriad 4

Mae gan y person gymhwyster addysg uwch ac mae cwrs cymhwysol y mae'r person yn ymgymryd ag ef yn arwain at gymhwyster sy'n gymhwyster cyfatebol neu is.

Ond nid yw'r eithriad hwn yn gymwys yn unrhyw un neu ragor o'r achosion a ganlyn—

Achos 1

Pan—

(a) bo'r cwrs cymhwysol yn gwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon,

(b) na fo'r cwrs yn para'n hwy na dwy flynedd (mynegir cyfnod para cwrs rhan-amser fel cyfnod para'r cwrs llawnamser cyfatebol), ac

(c) na fo'r person cymhwysol yn athro cymwysedig neu'n athrawes gymwysedig.

Achos 2

Mewn cysylltiad ag unrhyw ran o gwrs sengl—

(a) pan fo'r cwrs sengl yn arwain at radd anrhydedd yn cael ei rhoi i'r person cymhwysol gan sefydliad yn y Deyrnas Unedig cyn y radd derfynol neu gymhwyster cyfatebol, a

(b) pan gafwyd yr unig radd anrhydedd sydd gan y person cymhwysol fel rhan o'r cwrs sengl hwnnw.

Achos 3

Pan fo'r cwrs cymhwysol yn radd sylfaen.

Achos 4

Pan fo'r cwrs cymhwysol yn arwain at gymhwyster fel gweithiwr cymdeithasol, meddyg, deintydd, milfeddyg neu bensaer.

Eithriad 5

Mewn cysylltiad â chwrs a ddechreuodd cyn 1 Awst 2023, yr unig gategori rhagnodedig y mae'r person yn dod o'i fewn yw paragraff 21.

(4) Pan fo person, o ganlyniad i ddigwyddiad yn ystod blwyddyn academaidd, yn dod o fewn categori setledig neu gategori rhagnodedig yn ystod blwyddyn academaidd, nid yw'r person hwnnw yn berson cymhwysol mewn cysylltiad â'r flwyddyn academaidd y digwyddodd y digwyddiad perthnasol ynddi neu mewn cysylltiad ag unrhyw flwyddyn academaidd flaenorol.

(5) At ddibenion Eithriad 4 ym mharagraff (3), mae cymhwyster yn gymhwyster cyfatebol neu is—

(a) os oes gan y person gymhwyster addysg uwch o sefydliad yn y Deyrnas Unedig, a

(b) os yw'r cymhwyster y cyfeirir ato yn is-baragraff (a) ar lefel academaidd sy'n cyfateb i gymhwyster y mae'r cwrs cymhwysol cyfredol yn arwain ato, neu ar lefel sy'n uwch na'r cymhwyster hwnnw.

(6) Yn y rheoliad hwn—

mae i "athro cymwysedig neu athrawes gymwysedig" yr ystyr a roddir i "qualified teacher" yn adran 132(1) o Ddeddf Addysg 2002(**6**);

ystyr "categori rhagnodedig" ("*prescribed category*") yw un o'r categorïau a ddisgrifir—

(a) ym mharagraff 2, 4, 5, 6, 7, 8, 9, 10, 12, 14, 18, 19, 20, 21, 22, 23, 25, 27 neu 29 o'r Atodlen, neu

(b) ym mharagraff 11, 13, 15, 17, 24, 26 neu 28 o'r Atodlen pan—

(i) mewn cysylltiad â chwrs sy'n dechrau cyn 1 Awst 2021, fo person ("A") yn ymgymryd â'r cwrs hwnnw mewn perthynas â blwyddyn academaidd sy'n dechrau cyn y dyddiad hwnnw,

(ii) bo A yn ymgymryd â blwyddyn academaidd o'r cwrs hwnnw neu o gwrs y mae A yn trosglwyddo iddo o'r cwrs hwnnw yn unol â rheoliadau a wneir o dan adran 22 o Ddeddf 1998, a

(iii) bo'r cwrs wedi ei bennu'n gwrs cymhwysol o dan reoliad 3;

ystyr "categori setledig" ("*settled category*") yw categori a ddisgrifir ym mharagraff 3 neu 16 o'r Atodlen;

ystyr "cwrs sengl" ("*single course*") yw cwrs a ddisgrifir—

(a) yn rheoliad 5(7) o Reoliadau 2017 y mae rheoliad 5(6) o'r Rheoliadau hynny yn gymwys iddo, neu

(b) yn rheoliad 6(4) o Reoliadau 2018 y mae rheoliad 6(3) o'r Rheoliadau hynny yn gymwys iddo;

ystyr "cymhwyster cyfatebol neu is" ("*equivalent or lower qualification*") yw cymhwyster y penderfynir gan Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff (5) ei fod yn gymhwyster cyfatebol neu is;

ystyr "Rheoliadau 2017" ("*the 2017 Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2017(**7**);

ystyr "Rheoliadau 2018" ("*the 2018 Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018(**8**).

(**6**) 2002 p. 32.

(**7**) O.S. 2017/47 (Cy. 21), a ddiwygiwyd gan O.S. 2023/1349 (Cy. 243); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

(**8**) O.S. 2018/191 (Cy. 42), a ddiwygiwyd gan O.S. 2023/1349 (Cy. 243); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Vikki Howells
Y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch, o dan awdurdod Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru
25 Chwefror 2026

Categorïau

Dehongli

1.—(1) At ddibenion yr Atodlen hon—

ystyr "aelod o deulu" ("*family member*") yw—

(a) mewn perthynas â gweithiwr trawsffiniol AEE, gweithiwr mudol AEE, person hunangyflogedig trawsffiniol AEE, person hunangyflogedig AEE neu berson perthnasol o Ogledd Iwerddon sy'n cael ei drin fel pe bai'n weithiwr mudol AEE neu'n berson hunangyflogedig AEE yn rhinwedd paragraff 12(3)—

(i) priod neu bartner sifil y person hwnnw,

(ii) disgynyddion uniongyrchol y person neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y person sydd—

(aa) o dan 21 oed, neu

(bb) yn ddibynyddion y person neu'n ddibynyddion priod neu bartner sifil y person, neu

(iii) perthnasau uniongyrchol dibynnol yn llinach esgynnol y person neu yn llinach esgynnol priod neu bartner sifil y person;

(b) mewn perthynas â pherson cyflogedig Swisaidd, person cyflogedig trawsffiniol Swisaidd, person hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd neu berson hunangyflogedig Swisaidd—

(i) priod neu bartner sifil y person, neu

(ii) plentyn y person neu blentyn priod neu bartner sifil y person;

(c) mewn perthynas â gwladolyn UE sy'n dod o fewn Erthygl 7(1)(c) o Gyfarwyddeb 2004/38 neu, at ddibenion paragraff 18, mewn perthynas â pherson perthnasol o Ogledd Iwerddon a fyddai'n dod o fewn Erthygl 7(1)(c) o Gyfarwyddeb 2004/38 pe bai'r person hwnnw yn wladolyn UE neu'n wladolyn UE yn unig—

(i) priod neu bartner sifil y gwladolyn, neu

(ii) disgynyddion uniongyrchol y gwladolyn neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y gwladolyn sydd—

(aa) o dan 21 oed, neu

(bb) yn ddibynyddion y gwladolyn neu'n ddibynyddion priod neu bartner sifil y gwladolyn;

(d) mewn perthynas â gwladolyn UE sy'n dod o fewn Erthygl 7(1)(b) o Gyfarwyddeb 2004/38 neu, at ddibenion paragraff 18, mewn perthynas â pherson perthnasol o Ogledd Iwerddon a fyddai'n dod o fewn Erthygl 7(1)(b) o Gyfarwyddeb 2004/38 pe bai'r person hwnnw yn wladolyn UE neu'n wladolyn UE yn unig—

(i) priod neu bartner sifil y gwladolyn,

(ii) disgynyddion uniongyrchol y gwladolyn neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y gwladolyn sydd—

(aa) o dan 21 oed, neu

(bb) yn ddibynyddion y gwladolyn neu'n ddibynyddion priod neu bartner sifil y gwladolyn, neu

(iii) perthnasau uniongyrchol dibynnol yn llinach esgynnol y gwladolyn neu yn llinach esgynnol priod neu bartner sifil y gwladolyn;

(e) mewn perthynas â gwladolyn o'r Deyrnas Unedig, at ddibenion paragraffau 17, 19 a 23 ac at ddibenion paragraffau 21 a 22 mewn perthynas â phersonau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig—

(i) priod neu bartner sifil y gwladolyn, neu

(ii) disgynyddion uniongyrchol y gwladolyn neu ddisgynyddion uniongyrchol priod neu bartner sifil y gwladolyn sydd—

(aa) o dan 21 oed, neu

(bb) yn ddibynyddion y gwladolyn neu'n ddibynyddion priod neu bartner sifil y gwladolyn;

ystyr "Ardal Economaidd Ewropeaidd" ("*European Economic Area*") yw'r ardal a ffurfir gan y Gwladwriaethau AEE;

ystyr "Cyfarwyddeb 2004/38" ("*Directive 2004/38*") yw Cyfarwyddeb 2004/38/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor dyddiedig 29 Ebrill 2004 ar hawliau dinasyddion yr Undeb ac aelodau o'u teuluoedd i symud a phreswylio'n rhydd yn nhiriogaeth yr Aelod-wladwriaethau, sy'n diwygio Rheoliad (EEC) Rhif 1612/68 ac yn diddymu Cyfarwyddebau 64/221/EEC, 68/360/EEC, 72/194/EEC, 73/148/EEC, 75/34/EEC, 75/35/EEC, 90/364/EEC, 90/365/EEC a 93/96/EEC(**9**);

ystyr "cyflogaeth" ("*employment*") yw cyflogaeth lawnamser neu ran-amser;

mae i "cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd" yr ystyr a roddir i "Swiss citizens' rights agreement" gan adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;

mae i "cytundeb gwahanu EFTA yr AEE" yr ystyr a roddir i "EEA EFTA separation agreement" gan adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020(**10**);

ystyr "Cytundeb y Swistir" ("*Swiss Agreement*") yw'r Cytundeb rhwng yr Undeb Ewropeaidd a'i Aelod-wladwriaethau, o'r naill ran, a Chydffederasiwn y Swistir, o'r rhan arall, ar Symudiad Rhydd Personau a lofnodwyd yn Lwcsembwrg ar 21 Mehefin 1999(**11**) ac a ddaeth i rym ar 1 Mehefin 2002;

mae i "diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu" yr ystyr a roddir i "IP completion day" yn adran 39(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;

ystyr "ffoadur" ("*refugee*") yw person a gydnabyddir gan Lywodraeth Ei Fawrhydi yn ffoadur o fewn ystyr Confensiwn y Cenhedloedd Unedig sy'n ymwneud â Statws

(**9**) OJ Rhif L 158, 30.4.2004, t. 77, y mae diwygiadau iddi nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**10**) 2020 p. 1. Mae diwygiadau i adran 39(1) nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**11**) Gorch. 4904 ac OJ Rhif L 114, 30.4.2002, t. 6, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Ffoaduriaid a wnaed yng Ngenefa ar 28 Gorffennaf 1951(**12**) fel y'i hestynnwyd gan y Protocol iddo a ddaeth i rym ar 4 Hydref 1967(**13**);

ystyr "gweithiwr" yw "worker" o fewn ystyr Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu Gytundeb yr AEE, yn ôl y digwydd;

ystyr "gweithiwr mudol AEE" ("*EEA migrant worker*") yw gwladolyn AEE sy'n weithiwr, ac eithrio gweithiwr trawsffiniol AEE, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "gweithiwr trawsffiniol AEE" ("*EEA frontier worker*") yw gwladolyn AEE sydd—

(a) yn weithiwr yn y Deyrnas Unedig, a

(b) yn preswylio yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu yn y Wladwriaeth AEE honno yn ddyddiol neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr "gwladolyn AEE" ("*EEA national*") yw gwladolyn o Wladwriaeth AEE;

mae i "gwladolyn o'r Deyrnas Unedig" yr ystyr a roddir i "United Kingdom national" gan Erthygl 2(d) o'r cytundeb ymadael â'r UE;

ystyr "gwladolyn UE" ("*EU national*") yw gwladolyn o Aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd;

ystyr "person cyflogedig" ("*employed person*") yw person cyflogedig o fewn ystyr Atodiad 1 (Symudiad Rhydd Personau) i Gytundeb y Swistir;

ystyr "person cyflogedig Swisaidd" ("*Swiss employed person*") yw gwladolyn Swisaidd sy'n berson cyflogedig, ac eithrio person cyflogedig trawsffiniol Swisaidd, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "person cyflogedig trawsffiniol Swisaidd" ("*Swiss frontier employed person*") yw gwladolyn Swisaidd sydd—

(a) yn berson cyflogedig yn y Deyrnas Unedig, a

(b) yn preswylio yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu yn y Wladwriaeth AEE honno yn ddyddiol neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr "person hunangyflogedig" ("*self-employed person*") yw—

(a) mewn perthynas â gwladolyn AEE, person sy'n hunangyflogedig o fewn ystyr Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu Gytundeb yr AEE, yn ôl y digwydd, neu

(b) mewn perthynas â gwladolyn Swisaidd, person sy'n berson hunangyflogedig o fewn ystyr Atodiad 1 (Symudiad Rhydd Personau) i Gytundeb y Swistir;

ystyr "person hunangyflogedig AEE" ("*EEA self-employed person*") yw gwladolyn AEE sy'n berson hunangyflogedig, ac eithrio person hunangyflogedig trawsffiniol AEE, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "person hunangyflogedig Swisaidd" ("*Swiss self-employed person*") yw gwladolyn Swisaidd sy'n berson hunangyflogedig, ac eithrio person hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd, yn y Deyrnas Unedig;

ystyr "person hunangyflogedig trawsffiniol AEE" ("*EEA frontier self-employed person*") yw gwladolyn AEE sydd—

(**12**) Gorchmn. 9171.
(**13**) Gorchmn. 3906.

(a) yn berson hunangyflogedig yn y Deyrnas Unedig, a

(b) yn preswylio yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu yn y Wladwriaeth AEE honno yn ddyddiol neu o leiaf unwaith yr wythnos;

ystyr "person hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd" ("*Swiss frontier self-employed person*") yw gwladolyn Swisaidd sydd—

(a) yn berson hunangyflogedig yn y Deyrnas Unedig, a

(b) yn preswylio yn y Swistir neu yn nhiriogaeth Gwladwriaeth AEE ac sy'n dychwelyd i'w breswylfa yn y Swistir neu yn y Wladwriaeth AEE honno yn ddyddiol neu o leiaf unwaith yr wythnos;

mae i "person perthnasol o Ogledd Iwerddon" yr ystyr a roddir i "relevant person of Northern Ireland" gan reolau mewnfudo'r cynllun preswylio;

ystyr "person sydd â hawliau gwarchodedig" ("*person with protected rights*") yw—

(1) (a) person o fewn cwmpas personol y darpariaethau hawliau dinasyddion—

(i) a chanddo ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi a roddwyd yn rhinwedd rheolau mewnfudo'r cynllun preswylio,

(ii) sy'n ddinesydd Gwyddelig nad yw'n ofynnol iddo, yn unol ag adran 3ZA o Ddeddf Mewnfudo 1971(**14**), gael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi,

(iii) sy'n geisydd at ddibenion rheoliad 4 o Reoliadau Hawliau Dinasyddion 2020 pan na fo'r cyfnod perthnasol, o fewn ystyr y rheoliad hwnnw, wedi dod i ben, neu

(iv) sydd fel arall â hawliau y bernir eu bod yn gymwys yn rhinwedd unrhyw ddarpariaethau tybio hawliau dinasyddion, neu

(b) aelod o deulu person perthnasol o Ogledd Iwerddon at ddibenion rheolau mewnfudo'r cynllun preswylio, pan fo gan yr aelod hwnnw o'r teulu ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi a roddwyd yn rhinwedd rheolau mewnfudo'r cynllun preswylio;

(2) Ym mharagraff (1)(a)(iv), ystyr "darpariaethau tybio hawliau dinasyddion" yw—

(a) Erthygl 18(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ymadael â'r UE,

(b) Erthygl 17(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE, neu

(c) Erthygl 16(2) a (3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd;

(**14**) 1971 p. 77. Mewnosodwyd adran 3ZA gan Ddeddf Mewnfudo a Chyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol (Ymadael â'r UE) 2020 (p. 20), adran 2(2).

ystyr “rheolau mewnfudo” (“*immigration rules*”) yw’r rheolau a osodir gerbron Senedd y Deyrnas Unedig gan yr Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 3(2) o Ddeddf Mewnfudo 1971(**15**);

mae i “rheolau mewnfudo’r cynllun preswylio” yr ystyr a roddir i “residence scheme immigration rules” gan adran 17(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020;

ystyr “y Rheoliad Gweithwyr” (“*the Workers Regulation*”) yw Rheoliad (EU) Rhif 492/2011 Senedd Ewrop a’r Cyngor dyddiedig 5 Ebrill 2011 ar symudiad rhydd ar gyfer gweithwyr o fewn yr Undeb;

ystyr “Rheoliadau Hawliau Dinasyddion 2020” (“*the 2020 Citizens’ Rights Regulations*”) yw Rheoliadau Hawliau Dinasyddion (Dyddiad Cau ar gyfer Ceisiadau a Diogelwch Dros Dro) (Ymadael â’r UE) 2020(**16**);

ystyr “tiriogaethau tramor” (“*overseas territories*”) yw Anguilla; Bermuda; De Georgia ac Ynysoedd Sandwich y De; Gibraltar; Mayotte; Montserrat; Polynesia Ffrengig; y rhan Garibïaidd o Deyrnas yr Iseldiroedd (Aruba, Bonaire, Curaçao, Saba, Sint Eustatius a Sint Maarten); St Barthélemy; St Helena, Ascension a Tristan da Cunha; St Pierre a Miquelon; Tiriogaeth Brydeinig yr Antarctig; Tiriogaeth Brydeinig Cefnfor India; Tiriogaeth Caledonia Newydd a Thiriogaethau Dibynnol; Tiriogaethau Deheuol ac Antarctig Ffrainc; Wallis a Futuna; Yr Ynys Las; Ynysoedd Cayman; Ynysoedd Falkland; Ynysoedd Ffaro; Ynysoedd Pitcairn, Henderson, Ducie ac Oeno; Ynysoedd Turks a Caicos; ac Ynysoedd y Wyryf;

ystyr “yr Undeb Ewropeaidd” (“*European Union*”) yw’r diriogaeth a ffurfir gan Aelod-wladwriaethau’r Undeb Ewropeaidd fel y’i cyfansoddir o bryd i’w gilydd;

mae i “wedi setlo” yr ystyr a roddir i “settled” gan adran 33(2A) o Ddeddf Mewnfudo 1971(**17**);

ystyr “yr Ynysoedd” (“*the Islands*”) yw Ynysoedd y Sianel ac Ynys Manaw.

(2) At ddibenion yr Atodlen hon, mae cyfeiriad at “Member State” neu “State” yn Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 i’w ddarllen fel pe bai’n cynnwys y Deyrnas Unedig.

(3) At ddibenion yr Atodlen hon, mae “rhiant” yn cynnwys gwarcheidwad, unrhyw berson arall a chanddo gyfrifoldeb rhiant dros blentyn ac unrhyw berson a chanddo ofal am blentyn ac mae “plentyn” i’w ddehongli yn unol â hynny.

(4) At ddibenion yr Atodlen hon, mae person (“P”) i’w drin fel pe bai’n preswylio fel arfer mewn ardal pe bai P wedi bod yn preswylio felly oni bai am y ffaith bod—

(a) P,

(b) priod neu bartner sifil P,

(c) rhiant P, neu

(d) yn achos perthnasau uniongyrchol dibynnol yn y llinach esgynnol, plentyn P neu briod neu bartner sifil plentyn P,

yn gyflogedig dros dro neu wedi bod yn gyflogedig dros dro y tu allan i’r ardal o dan sylw.

(5) At ddibenion is-baragraff (4), mae cyflogaeth dros dro yn cynnwys—

(**15**) 1971 p. 77.
(**16**) O.S. 2020/1209, a ddiwygiwyd gan O.S. 2020/1309.
(**17**) 1971 p. 77. Mewnosodwyd adran 33(2A) gan baragraff 7(b) o Atodlen 4 i Ddeddf Cenedligrwydd Prydeinig 1981 (p. 61).

(a) yn achos aelodau o luoedd rheolaidd llynges, byddin neu lu awyr y Goron, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r Deyrnas Unedig fel aelodau o luoedd o'r fath,

(b) yn achos aelodau o luoedd rheolaidd llynges, byddin neu lu awyr Gweriniaeth Iwerddon, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a Gweriniaeth Iwerddon fel aelodau o luoedd o'r fath,

(c) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Gwladwriaeth AEE neu'r Swistir, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir fel aelodau o luoedd o'r fath, a

(d) yn achos aelodau o luoedd arfog rheolaidd Twrci, unrhyw gyfnod pan fyddant yn gwasanaethu y tu allan i'r diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci fel aelodau o luoedd o'r fath.

(6) At ddibenion yr Atodlen hon, mae ardal ac eithrio'r Deyrnas Unedig neu Gibraltar—

(a) nad oedd gynt yn rhan o'r Undeb Ewropeaidd na'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, a

(b) sydd ar unrhyw adeg cyn neu ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym wedi dod yn rhan o'r naill neu'r llall, neu o'r ddwy, o'r ardaloedd hyn,

i'w hystyried fel pe bai bob amser wedi bod yn rhan o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd.

(7) At ddibenion yr Atodlen hon, mae person sy'n preswylio fel arfer yng Nghymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon am ei fod wedi symud o un o'r ardaloedd hynny at ddiben ymgymryd—

(a) â'r cwrs presennol, neu

(b) gan ddiystyru unrhyw wyliau yn y cyfamser, â chwrs yr ymgymerodd y person ag ef yn union cyn ymgymryd â'r cwrs presennol,

i'w ystyried yn berson sy'n preswylio fel arfer yn y lle y mae'r person wedi symud ohono.

(8) At ddibenion yr Atodlen hon, mae person o fewn cwmpas personol y darpariaethau hawliau dinasyddion os yw'r person hwnnw yn dod o fewn—

(a) Erthygl 10 (cwmpas personol) o'r cytundeb ymadael â'r UE,

(b) Erthygl 9 (cwmpas personol) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE, neu

(c) Erthygl 10 (cwmpas personol) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd.

Personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig

2.—(1) Person—

(a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac nad yw'n dod o fewn paragraff 4,

(b) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu'n preswylio yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (d) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn unol â pharagraff 1(4).

Personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig o Ynysoedd y Sianel, Ynys Manaw a Gweriniaeth Iwerddon

3.—(1) Person—

(a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac nad yw'n dod o fewn paragraff 4,

(b) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar y diwrnod y mae tymor cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf yn dechrau mewn gwirionedd,

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a Gweriniaeth Iwerddon drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a Gweriniaeth Iwerddon yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (d) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a Gweriniaeth Iwerddon yn unol â pharagraff 1(4).

Personau o fewn cwmpas personol y darpariaethau hawliau dinasyddion etc.

4.—(1) Person—

(a) sy'n bodloni un o'r amodau a ganlyn ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd o'r cwrs—

(i) mae'r person o fewn cwmpas personol y darpariaethau hawliau dinasyddion ac wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd cael caniatâd amhenodol i ddod i mewn neu i aros o dan reolau mewnfudo'r cynllun preswylio,

(ii) o ran y person—

(aa) mae o fewn cwmpas personol y darpariaethau hawliau dinasyddion,

(bb) mae'n ddinesydd Gwyddelig sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig nad yw'n ofynnol iddo, yn unol ag adran 3ZA o Ddeddf Mewnfudo 1971, gael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi, ac

(cc) byddai'n bodloni'r gofynion cymhwystra ar gyfer caniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi a roddir yn rhinwedd rheolau mewnfudo'r cynllun preswylio pe bai'r person hwnnw yn gwneud cais am ganiatâd o'r fath,

(iii) o ran y person—

(aa) mae o fewn cwmpas personol y darpariaethau hawliau dinasyddion,

(bb) mae'n geisydd at ddibenion rheoliad 4 o Reoliadau Hawliau Dinasyddion 2020 neu fel arall mae ganddo hawliau y bernir eu bod yn gymwys yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau hawliau dinasyddion a bennir yn is-baragraff (3), ac

(cc) mae ganddo hawl i breswylio'n barhaol, neu'n cael ei drin fel pe bai ganddo hawl o'r fath, at ddibenion Rheoliadau Mewnfudo (Yr Ardal Economaidd Ewropeaidd) 2016(**18**), fel y mae'r Rheoliadau hynny yn parhau i gael effaith yn rhinwedd Rheoliadau Hawliau Dinasyddion 2020 mewn perthynas â'r person hwnnw yn ystod y cyfnod perthnasol neu fel arall mae ganddo hawl dybiedig i breswylio'n barhaol yn rhinwedd unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau hawliau dinasyddion a bennir yn is-baragraff (3), neu

(iv) mae'r person yn aelod o deulu person perthnasol o Ogledd Iwerddon at ddibenion rheolau mewnfudo'r cynllun preswylio, pan fo'r aelod hwnnw o'r teulu wedi setlo yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd cael caniatâd amhenodol i ddod i mewn neu i aros o dan reolau mewnfudo'r cynllun preswylio,

(b) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) mewn achos pan oedd y preswylio y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor yn union cyn y cyfnod o breswylio y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) At ddibenion is-baragraff (1)(a)(ii)(cc), ystyr "gofynion cymhwystra ar gyfer caniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi a roddir yn rhinwedd rheolau mewnfudo'r cynllun preswylio" yw'r gofynion cymhwystra ar gyfer caniatâd o'r fath yn unol â pharagraff EU11 o Atodiad EU (dinasyddion yr UE, dinasyddion eraill yr AEE a dinasyddion Swisaidd ac aelodau o'u teuluoedd) i'r rheolau mewnfudo.

(3) At ddibenion is-baragraff (1)(a)(iii), y darpariaethau hawliau dinasyddion y cyfeirir atynt yw—

(a) Erthygl 18(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ymadael â'r UE,

(b) Erthygl 17(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o gytundeb gwahanu EFTA yr AEE, neu

(c) Erthygl 16(3) (dyroddi dogfennau preswylio) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd.

(4) Yn y paragraff hwn, mae i "cyfnod perthnasol" yr ystyr a roddir i "relevant period" gan reoliad 4 o Reoliadau Hawliau Dinasyddion 2020.

Ffoaduriaid ac aelodau o'u teuluoedd

5.—(1) Person—

(a) sy'n ffoadur,

(b) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly ers i'r person gael ei gydnabod yn ffoadur, ac

(**18**) O.S. 2016/1052, a ddirymwyd gan Ddeddf Mewnfudo a Chyd-drefnu Nawdd Cymdeithasol (Ymadael â'r UE) 2020 (p. 20), Atodlen 1, paragraff 2(2).

(c) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

(a) sy'n briod neu'n bartner sifil i ffoadur,

(b) a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r ffoadur ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur gais am loches,

(c) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly er pan gafodd y ffoadur ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig, a

(d) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(3) Person—

(a) sy'n blentyn i ffoadur neu'n blentyn i briod neu i bartner sifil ffoadur,

(b) ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur gais am loches, a oedd yn blentyn i'r ffoadur neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r ffoadur ar y dyddiad hwnnw,

(c) a oedd o dan 18 oed ar y dyddiad y gwnaeth y ffoadur gais am loches,

(d) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly er pan gafodd y ffoadur ganiatâd i aros yn y Deyrnas Unedig, ac

(e) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

Personau a ddiogelir ac aelodau o'u teuluoedd

6.—(1) Person a ddiogelir sy'n preswylio fel arfer—

(a) yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly er pan roddwyd y caniatâd hwnnw iddo, a

(b) yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

(a) sy'n briod neu'n bartner sifil a ddiogelir,

(b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros, yn briod neu'n bartner sifil i berson a ddiogelir (yn rhinwedd diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo neu fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnfudo),

(c) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly er pan roddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi, a

(d) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(3) Person—

(a) sy'n blentyn a ddiogelir,

(b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros—

(i) o dan 18 oed, a

(ii) yn blentyn i berson a ddiogelir neu, yn ôl y digwydd, yn blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person a ddiogelir ar y dyddiad hwnnw (yn rhinwedd diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo, caniatâd i aros fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnfudo neu adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016(**19**) a'r rheolau mewnfudo, yn ôl y digwydd),

(c) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly er pan roddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi, a

(d) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(4) Yn y paragraff hwn—

ystyr "dyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros" ("*leave application date*") yw'r dyddiad y gwnaeth person ("P") gais am ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi sy'n arwain at P yn dod yn berson a ddiogelir;

ystyr "person a ddiogelir" ("*protected person*") yw person a chanddo—

(a) caniatâd i ddod i mewn neu i aros ar sail diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo,

(b) caniatâd i aros fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnfudo,

(c) caniatâd i aros yn y Deyrnas Unedig o dan adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016 ac yn unol â'r rheolau mewnfudo, neu

(d) caniatâd i aros o dan baragraff 352J, 352K, 352L neu 352T o'r rheolau mewnfudo (caniatâd Calais a "caniatâd oherwydd llinach" a roddir yn rhinwedd bod yn blentyn dibynnol i berson y rhoddwyd caniatâd Calais iddo);

ystyr "plentyn a ddiogelir" ("*protected child*") yw—

(a) plentyn i berson a chanddo—

(i) caniatâd i ddod i mewn neu i aros ar sail diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo,

(ii) caniatâd i aros fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnfudo, neu

(iii) caniatâd i aros yn y Deyrnas Unedig o dan adran 67 o Ddeddf Mewnfudo 2016 ac yn unol â'r rheolau mewnfudo;

(b) plentyn i briod neu i bartner sifil person a chanddo—

(i) caniatâd i ddod i mewn neu i aros ar sail diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo, neu

(ii) caniatâd i aros fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnfudo;

ystyr "priod neu bartner sifil a ddiogelir" ("*protected spouse or civil partner*") yw priod neu bartner sifil i berson a chanddo—

(a) caniatâd i ddod i mewn neu i aros ar sail diogelwch dyngarol o dan baragraff 339C o'r rheolau mewnfudo, neu

(b) caniatâd i aros fel person diwladwriaeth o dan y rheolau mewnfudo.

(**19**) 2016 p. 19.

Partneriaid a ddiogelir a'u plant

7.—(1) Partner a ddiogelir sy'n preswylio fel arfer—

(a) yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly er pan roddwyd y caniatâd hwnnw iddo, a

(b) yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Plentyn i bartner a ddiogelir—

(a) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros, o dan 18 oed ac yn blentyn i bartner a ddiogelir,

(b) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly er pan roddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi, ac

(c) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(3) Yn y paragraff hwn—

ystyr "dyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros" ("*leave application date*") yw'r dyddiad y gwnaeth person ("P") gais am ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi sy'n arwain at P yn dod yn bartner a ddiogelir;

ystyr "partner a ddiogelir" ("*protected partner*") yw person a chanddo ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi naill ai fel dioddefwr trais domestig neu gam-drin domestig neu fel partner sydd wedi cael profedigaeth, a roddwyd yn unrhyw un neu ragor o'r achosion a ganlyn—

Achos 1

Yn achos person y rhoddwyd caniatâd iddo i aros cyn 31 Ionawr 2024, o dan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a ganlyn o'r rheolau mewnfudo—

(a) paragraffau 289B a 289D (dioddefwyr trais domestig),

(b) paragraffau D-DVILR.1.1. a D-DVILR.1.2. o Atodiad FM (dioddefwyr cam-drin domestig),

(c) paragraffau 40 ac 41 o Atodiad Lluoedd Arfog (dioddefwyr trais domestig sy'n bartneriaid i aelodau o'r lluoedd arfog),

(d) paragraff 288, fel person y mae'r gofynion ym mharagraff 287(b) o'r rheolau mewnfudo wedi eu bodloni mewn perthynas ag ef (priodau neu bartneriaid sifil sydd wedi cael profedigaeth),

(e) paragraffau D-BPILR.1.1. a D-BPILR.1.2. o Atodiad FM (partneriaid sydd wedi cael profedigaeth),

(f) paragraffau 36 a 37 o Atodiad Lluoedd Arfog (partneriaid sydd wedi cael profedigaeth), neu

(g) paragraff 295N, fel person y mae'r gofynion ym mharagraff 295M o'r rheolau mewnfudo wedi eu bodloni mewn perthynas ag ef (partneriaid di-briod neu bartneriaid o'r un rhyw sydd wedi cael profedigaeth);

Achos 2

Yn achos person y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn neu i aros ar neu ar ôl 31 Ionawr 2024, o dan y naill neu'r llall o'r darpariaethau a ganlyn o'r rheolau mewnfudo—

(a) paragraff VDA 9.1 o'r Atodiad Dioddefwr Cam-drin Domestig, neu

(b) paragraff BP 11.1 o'r Atodiad Partner sydd wedi cael Profedigaeth;

Achos 3

Yn achos person y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn neu i aros ar neu ar ôl 5 Hydref 2023 fel partner sydd wedi cael profedigaeth, o dan baragraff AF (GHK) 14.1 o Atodiad cyn-aelod o'r Gurkhas neu unedau milwrol Hong Kong a ryddhawyd cyn 1 Gorffennaf 1997 i'r rheolau mewnfudo;

Achos 4

Yn achos person y rhoddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn neu i aros cyn 5 Hydref 2023, y tu allan i'r rheolau mewnfudo, ar y sail bod y person yn bartner sydd wedi cael profedigaeth i Gurkha a ryddhawyd cyn 1 Gorffennaf 1997.

Gwladolion Wcreinaidd a ddiogelir ac aelodau o'u teuluoedd

8.—(1) Gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir sy'n preswylio fel arfer—

(a) yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly ers dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir, a

(b) yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

(a) sy'n briod neu'n bartner sifil i wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir,

(b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros, yn briod neu'n bartner sifil i'r person hwnnw,

(c) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly er pan roddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi, a

(d) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(3) Person—

(a) sydd—

(i) yn blentyn i wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir, neu

(ii) yn blentyn i briod neu i bartner sifil gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir,

(b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros—

(i) o dan 18 oed, a

(ii) yn blentyn i'r gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir neu, yn ôl y digwydd, yn blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir,

(c) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly er pan roddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi, a

(d) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(4) Yn y paragraff hwn—

ystyr "dyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros" ("*leave application date*") yw'r dyddiad y gwnaeth person ("P") gais am ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi sy'n arwain at P yn dod yn wladolyn Wcreinaidd a ddiogelir;

ystyr "gwladolyn Wcreinaidd a ddiogelir" ("*protected Ukrainian national*") yw person a chanddo ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi a roddwyd—

(a) o dan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a ganlyn o Atodiad Cynllun Wcráin i'r rheolau mewnfudo—

(i) paragraff UKR 9.1(**20**) (y Cynllun Teuluoedd o Wcráin);

(ii) paragraff UKR 19.1 (y Cynllun Noddi Cartrefi i Wcráin);

(iii) paragraff UKR 27.1(**21**) (y Cynllun Estyn Cyfnod Gwladolion o Wcráin);

(iv) paragraff UKR 36.1 (Cynllun Estyn Caniatâd Wcráin), neu

(b) y tu allan i'r rheolau mewnfudo—

(i) pan oedd y person yn preswylio yn Wcráin yn union cyn 1 Ionawr 2022, a

(ii) pan adawodd y person Wcráin mewn cysylltiad â'r ymosodiad gan Rwsia a ddigwyddodd ar 24 Chwefror 2022.

Dinasyddion perthnasol o Affganistan ac aelodau o'u teuluoedd

9.—(1) Dinesydd perthnasol o Affganistan sy'n preswylio fel arfer—

(a) yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly er pan roddwyd y caniatâd hwnnw iddo, a

(b) yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Person—

(a) sy'n briod neu'n bartner sifil i ddinesydd perthnasol o Affganistan,

(b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros, yn briod neu'n bartner sifil i ddinesydd perthnasol o Affganistan,

(c) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly er pan roddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi, a

(d) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(3) Person—

(a) sydd—

(i) yn blentyn i ddinesydd perthnasol o Affganistan, neu

(ii) yn blentyn i briod neu i bartner sifil dinesydd perthnasol o Affganistan,

(b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros—

(i) o dan 18 oed, a

(**20**) Dilëwyd paragraff UKR 9.1 gan y Datganiad o Newidiadau i'r Rheolau Mewnfudo a osodwyd gerbron Senedd y DU ar 19 Chwefror 2024 (HC 556). Gellir dod o hyd i gopi electronig o HC 556 ar https://www.gov.uk/government/publications/statement-of-changes-to-the-immigration-rules-hc-556-19-february-2024.

(**21**) Dilëwyd paragraff 27.1 gan y Datganiad o Newidiadau i'r Rheolau Mewnfudo a osodwyd gerbron Senedd y DU ar 26 Tachwedd 2024 (HC 334). Gellir dod o hyd i gopi electronig o HC 334 ar https://www.gov.uk/government/publications/statement-of-changes-to-the-immigration-rules-hc-334-26-november-2024.

(ii) yn blentyn i'r dinesydd perthnasol o Affganistan neu, yn ôl y digwydd, yn blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i ddinesydd perthnasol o Affganistan,

(c) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd ac nad yw wedi peidio â phreswylio felly er pan roddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi, a

(d) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(4) Yn y paragraff hwn—

ystyr "dinesydd perthnasol o Affganistan" ("*relevant Afghan citizen*") yw person a chanddo—

(a) caniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BA2 o'r rheolau mewnfudo neu ganiatâd amhenodol i aros yn y Deyrnas Unedig o dan baragraff 276BS2 o'r rheolau mewnfudo,

(b) caniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig o dan baragraff ARAP 6.1 o Atodiad Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid i'r rheolau mewnfudo neu ganiatâd amhenodol i aros yn y Deyrnas Unedig o dan baragraff ARAP 6.2 o'r Atodiad hwnnw i'r rheolau mewnfudo,

(c) caniatâd i ddod i mewn neu ganiatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi y tu allan i'r rheolau mewnfudo ar sail y Cynllun Polisi Adleoli a Chymorth i Affganiaid,

(d) caniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi y tu allan i'r rheolau mewnfudo ar sail y Cynllun Adsefydlu Dinasyddion Affganistan, neu

(e) caniatâd amhenodol i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi y tu allan i'r rheolau mewnfudo ar sail Llwybr Ymateb Affganistan(**22**);

ystyr "dyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros" ("*leave application date*") yw'r dyddiad y gwnaeth person ("P") gais am ganiatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi sy'n arwain at P yn dod yn ddinesydd perthnasol o Affganistan.

Personau sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ac aelodau o'u teuluoedd

10.—(1) Person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros—

(a) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod er pan roddwyd caniatâd iddo i ddod i mewn neu i aros.

(2) Person—

(a) sy'n briod neu'n bartner sifil i berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros,

(b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros, yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros, ac

(c) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(**22**) Terfynwyd Llwybr Ymateb Affganistan ar 4 Gorffennaf 2025. Mae canllawiau'r Weinyddiaeth Amddiffyn mewn perthynas â'r llwybr hwn ar gael yma: https://www.gov.uk/guidance/afghanistan-response-route.

(3) Person—

(a) sy'n blentyn i berson sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu sy'n blentyn i briod neu i bartner sifil person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros,

(b) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros, yn blentyn i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros neu'n blentyn i berson a oedd yn briod neu'n bartner sifil i'r person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros ar y dyddiad hwnnw,

(c) a oedd, ar ddyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros, o dan 18 oed, a

(d) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(4) Yn y paragraff hwn—

ystyr "dyddiad y cais i gael caniatâd i ddod i mewn neu i aros" ("*leave application date*") yw'r dyddiad y gwnaeth y person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros y cais a arweiniodd at y person hwnnw yn cael caniatâd i ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu i aros ynddi;

ystyr "person sydd â chaniatâd i ddod i mewn neu i aros" ("*person with leave to enter or remain*") yw person ("P")—

(a) sydd—

(i) wedi gwneud cais am statws ffoadur ond sydd, o ganlyniad i'r cais hwnnw, wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, er yr ystyrir nad yw P yn cymhwyso i gael ei gydnabod yn ffoadur, y credir ei bod yn iawn caniatáu i P ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros ynddi ar sail caniatâd yn ôl disgresiwn, ac y mae caniatâd wedi ei roi iddo i ddod i mewn neu i aros yn unol â hynny,

(ii) heb wneud cais am statws ffoadur ond sydd wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref y credir ei bod yn iawn caniatáu i P ddod i mewn i'r Deyrnas Unedig neu aros ynddi ar sail caniatâd yn ôl disgresiwn, ac y mae caniatâd wedi ei roi iddo i ddod i mewn neu i aros yn unol â hynny,

(iii) wedi cael caniatâd i aros ar sail bywyd teuluol o dan y rheolau mewnfudo,

(iv) wedi cael caniatâd i aros ar sail bywyd preifat o dan y rheolau mewnfudo, neu

(v) wedi ei hysbysu'n ysgrifenedig gan berson sy'n gweithredu o dan awdurdod Ysgrifennydd Gwladol yr Adran Gartref, er yr ystyrir nad yw P yn cymhwyso i gael caniatâd i aros ar sail bywyd preifat neu deuluol o dan y rheolau mewnfudo, fod P wedi cael caniatâd i aros y tu allan i'r rheolau ar sail Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, a

(b) nad yw cyfnod ei ganiatâd i ddod i mewn neu i aros wedi dod i ben, neu y mae'r cyfnod hwnnw wedi ei adnewyddu ac nad yw'r cyfnod y cafodd ei adnewyddu ar ei gyfer wedi dod i ben, neu y mae apêl yn yr arfaeth (o

fewn ystyr adran 104 o Ddeddf Cenedligrwydd, Mewnfudo a Lloches 2002(**23**)) mewn cysylltiad â'i ganiatâd i ddod i mewn neu i aros.

Gweithwyr, personau cyflogedig a phersonau hunangyflogedig o'r AEE a'r Swistir etc. ac aelodau o'u teuluoedd

11.—(1) Person—

(a) sydd—

(i) yn weithiwr mudol AEE neu'n berson hunangyflogedig AEE,

(ii) yn berson cyflogedig Swisaidd neu'n berson hunangyflogedig Swisaidd,

(iii) yn aelod o deulu person a grybwyllir yn is-baragraff (i) neu (ii),

(iv) yn weithiwr trawsffiniol AEE neu'n berson hunangyflogedig trawsffiniol AEE,

(v) yn berson cyflogedig trawsffiniol Swisaidd neu'n berson hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd, neu

(vi) yn aelod o deulu person a grybwyllir yn is-baragraff (iv) neu (v),

(b) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, ac

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Nid yw paragraff (b) o is-baragraff (1) yn gymwys pan fo'r person yn dod o fewn paragraff (a)(iv), (v) neu (vi) o'r is-baragraff hwnnw.

12.—(1) Person sydd â hawliau gwarchodedig neu weithiwr trawsffiniol o fewn ystyr "frontier worker" yn rheoliad 3 o Reoliadau Hawliau Dinasyddion (Gweithwyr Trawsffiniol) (Ymadael â'r UE) 2020—

(a) sydd—

(i) yn weithiwr mudol AEE neu'n berson hunangyflogedig AEE,

(ii) yn berson cyflogedig Swisaidd neu'n berson hunangyflogedig Swisaidd,

(iii) yn aelod o deulu person a grybwyllir yn is-baragraff (i) neu (ii),

(iv) yn weithiwr trawsffiniol AEE neu'n berson hunangyflogedig trawsffiniol AEE,

(v) yn berson cyflogedig trawsffiniol Swisaidd neu'n berson hunangyflogedig trawsffiniol Swisaidd, neu

(vi) yn aelod o deulu person a grybwyllir yn is-baragraff (iv) neu (v),

(b) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, ac

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Nid yw paragraff (b) o is-baragraff (1) yn gymwys pan fo'r person sy'n gwneud cais am gymorth yn dod o fewn paragraff (a)(iv), (v) neu (vi) o'r is-baragraff hwnnw.

(3) Yn y paragraff hwn, mae disgrifiad o berson yn is-baragraff (1)(a)(i) i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys person perthnasol o Ogledd Iwerddon a fyddai, pe bai'r person hwnnw

(**23**) 2002 p. 41. Diwygiwyd adran 104 gan Ddeddf Lloches a Mewnfudo (Trin Ceiswyr, etc.) 2004 (p. 19), Atodlen 2, paragraff 20; Deddf Mewnfudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006 (p. 13), adran 9; O.S. 2010/21, Atodlen 1, paragraff 26; a Deddf Mewnfudo 2014 (p. 22), Atodlen 9, paragraff 47.

yn wladolyn AEE neu'n wladolyn AEE yn unig, yn weithiwr mudol AEE neu'n berson hunangyflogedig AEE.

13.—(1) Person—

(a) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, ac

(c) sydd â hawlogaeth i gael cymorth yn rhinwedd Erthygl 10 o'r Rheoliad Gweithwyr, fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, fel y'i hestynnwyd gan Gytundeb yr AEE, fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)(c), yn Erthygl 10 o'r Rheoliad Gweithwyr mae'r cyfeiriad at "another Member State" i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys y Deyrnas Unedig ac mae'r cyfeiriadau at "that State" i'w dehongli yn unol â hynny.

(3) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi dod o fewn y paragraff hwn yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu i'w drin fel pe bai'n dod o fewn y paragraff hwn ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

14.—(1) Person sydd â hawliau gwarchodedig—

(a) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(c) sydd â hawlogaeth i gael cymorth yn rhinwedd Erthygl 10 o'r Rheoliad Gweithwyr, fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, fel y'i hestynnwyd gan Gytundeb yr AEE, fel yr oedd yn cael effaith yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

(2) At ddibenion is-baragraff (1)(c), yn Erthygl 10 o'r Rheoliad Gweithwyr—

(a) mae'r cyfeiriad at "national of a Member State" i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys person perthnasol o Ogledd Iwerddon, a

(b) mae'r cyfeiriad at "another Member State" i'w ddarllen fel pe bai'n cynnwys y Deyrnas Unedig, ac mae'r cyfeiriadau at "that State" i'w dehongli yn unol â hynny.

Personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac sydd wedi arfer hawl i breswylio yn rhywle arall

15.—(1) Person—

(a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig,

(b) sydd wedi ymadael â'r Deyrnas Unedig ac wedi arfer hawl i breswylio cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ar ôl iddo fod wedi setlo yn y Deyrnas Unedig,

(c) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar y diwrnod y mae tymor cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf yn dechrau,

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, ac

(e) mewn achos pan oedd y preswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (d) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddibenion cael addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (d).

(2) At ddibenion y paragraff hwn, mae person ("A" yn yr is-baragraff hwn) wedi arfer hawl i breswylio—

(a) pan fo A yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig, yn aelod o deulu gwladolyn o'r Deyrnas Unedig at ddibenion Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 (neu ddibenion cyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir) neu'n berson yr oedd ganddo'r hawl i breswylio'n barhaol, bod A wedi arfer hawl o dan Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu unrhyw hawl gyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir mewn gwladwriaeth ac eithrio'r Deyrnas Unedig, neu

(b) pan fo A wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac yr oedd ganddo'r hawl i breswylio'n barhaol, bod A wedi mynd i'r wladwriaeth o fewn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir y mae A yn wladolyn ohoni neu y mae'r person y mae A yn aelod o'r teulu mewn perthynas ag ef yn wladolyn ohoni.

(3) At ddibenion y paragraff hwn, roedd gan berson yr hawl i breswylio'n barhaol os oedd ganddo hawl a gododd o dan Gyfarwyddeb 2004/38 i breswylio'n barhaol yn y Deyrnas Unedig heb gyfyngiad.

16.—(1) Person—

(a) sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig,

(b) sydd wedi ymadael â'r Deyrnas Unedig ac wedi arfer hawl i breswylio cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ar ôl iddo fod wedi setlo yn y Deyrnas Unedig,

(c) a oedd yn preswylio fel arfer yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu—

(i) yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor, neu

(ii) yn y Deyrnas Unedig, pan ddechreuodd y preswylio fel arfer hwnnw ar ôl 31 Rhagfyr 2017 yn union ar ôl cyfnod o breswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor,

ac sydd wedi parhau i breswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod sy'n dechrau ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ac yn dod i ben yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(d) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar y diwrnod y mae tymor cyntaf y flwyddyn academaidd gyntaf yn dechrau mewn gwirionedd,

(e) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, ac

(f) mewn achos pan oedd ei breswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (e) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal

Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (e).

(2) At ddibenion y paragraff hwn, mae person wedi arfer hawl i breswylio os yw'r person hwnnw yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig, yn aelod o deulu gwladolyn o'r Deyrnas Unedig at ddibenion Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 (neu ddibenion cyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir), neu'n berson yr oedd ganddo'r hawl i breswylio'n barhaol sydd ym mhob achos wedi arfer hawl o dan Erthygl 7 o Gyfarwyddeb 2004/38 neu unrhyw hawl gyfatebol o dan Gytundeb yr AEE neu Gytundeb y Swistir mewn gwladwriaeth ac eithrio'r Deyrnas Unedig neu, yn achos person sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ac yr oedd ganddo'r hawl i breswylio'n barhaol, os yw'r person wedi mynd i'r wladwriaeth o fewn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir y mae'r person yn wladolyn ohoni neu y mae'r person y mae'n aelod o'r teulu mewn perthynas ag ef yn wladolyn ohoni.

(3) At ddibenion is-baragraff (2), roedd gan berson yr hawl i breswylio'n barhaol os oedd ganddo hawl a gododd o dan Gyfarwyddeb 2004/38 i breswylio'n barhaol yn y Deyrnas Unedig heb gyfyngiad.

Gwladolion UE etc.

17.—(1) Person—

(a) sydd naill ai—

(i) yn wladolyn UE ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd o'r cwrs, neu

(ii) yn aelod o deulu person o'r fath,

(b) sy'n ymgymryd â'r cwrs yn y Deyrnas Unedig,

(c) sydd, yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), na fu'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth berthnasol yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (c) o is-baragraff (1) yn gymwys i aelod o deulu person—

(a) sydd—

(i) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig sydd wedi arfer hawl i breswylio yn nhiriogaeth Aelod-wladwriaeth o dan Erthygl 7(1) o Gyfarwyddeb 2004/38, neu

(ii) yn wladolyn UE, a

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(3) Nid yw paragraff (d) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth berthnasol yn unol â pharagraff 1(4).

(4) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi dod o fewn y paragraff hwn yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu i'w drin fel pe bai'n dod o fewn y paragraff hwn ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

Gwladolion UE etc. sydd â hawliau gwarchodedig

18.—(1) Person sydd â hawliau gwarchodedig—

(a) sydd—

(i) yn wladolyn UE ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(ii) yn aelod o deulu person a grybwyllir yn is-baragraff (i), neu

(iii) yn aelod o deulu person perthnasol o Ogledd Iwerddon,

(b) sy'n ymgymryd â'r cwrs yn y Deyrnas Unedig,

(c) sydd, yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), na fu'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (c) o is-baragraff (1) yn gymwys i aelod o deulu person—

(a) sy'n wladolyn UE neu'n berson perthnasol o Ogledd Iwerddon, a

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(3) Nid yw paragraff (d) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor yn unol â pharagraff 1(4).

Gwladolion o'r Deyrnas Unedig sy'n preswylio fel arfer yn yr AEE, y Swistir neu diriogaethau tramor yr UE cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu

19.—(1) Person—

(a) sydd—

(i) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd o'r cwrs, neu

(ii) yn aelod o deulu person a grybwyllir yn is-baragraff (i),

(b) a oedd yn preswylio fel arfer yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu—

(i) yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a thiriogaethau tramor yr UE, neu

(ii) yn y Deyrnas Unedig, pan ddechreuodd y preswylio fel arfer hwnnw ar ôl 31 Rhagfyr 2017 yn union ar ôl cyfnod o breswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a thiriogaethau tramor yr UE,

ac sydd wedi parhau i breswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a thiriogaethau tramor yr UE drwy gydol y cyfnod sy'n dechrau ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ac yn dod i ben yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(c) sy'n ymgymryd â'r cwrs yn y Deyrnas Unedig,

(d) sydd, yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, ac

(e) yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), na fu'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (d) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (d) o is-baragraff (1) yn gymwys i aelod o deulu gwladolyn o'r Deyrnas Unedig—

(a) pan oedd y gwladolyn hwnnw o'r Deyrnas Unedig, cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu, wedi arfer hawl i breswylio yn nhiriogaeth Aelod-wladwriaeth o dan Erthygl 7(1) o Gyfarwyddeb 2004/38, a

(b) pan fo'r gwladolyn hwnnw o'r Deyrnas Unedig wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(3) Nid yw paragraff (e) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor yn unol â pharagraff 1(4).

(4) Pan fo person ("P") yn dod o fewn is-baragraff (1)(a)(ii), rhaid i'r person y mae P yn aelod o'r teulu mewn perthynas ag ef hefyd fodloni gofynion is-baragraff (1)(b) a (d).

(5) Yn y paragraff hwn ac ym mharagraff 20, ystyr "tiriogaethau tramor yr UE" yw Mayotte; Polynesia Ffrengig; y rhan Garibïaidd o Deyrnas yr Iseldiroedd (Aruba, Bonaire, Curaçao, Saba, Sint Eustatius a Sint Maarten); St Barthélemy; St Pierre a Miquelon; Tiriogaeth Caledonia Newydd a Thiriogaethau Dibynnol; Tiriogaethau Deheuol ac Antarctig Ffrainc; Wallis a Futuna; Yr Ynys Las; ac Ynysoedd Ffaro.

Dinasyddion Gwyddelig yn yr AEE a'r Swistir

20.—(1) Person—

(a) sy'n ddinesydd Gwyddelig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd o'r cwrs;

(b) a oedd yn preswylio fel arfer yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu—

(i) yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a thiriogaethau tramor yr UE, neu

(ii) yn y Deyrnas Unedig, pan ddechreuodd y preswylio fel arfer hwnnw ar ôl 31 Rhagfyr 2017 yn union ar ôl cyfnod o breswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a thiriogaethau tramor yr UE,

ac sydd wedi parhau i breswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a thiriogaethau tramor yr UE drwy gydol y cyfnod sy'n dechrau ar ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ac yn dod i ben yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(c) sy'n ymgymryd â'r cwrs yn y Deyrnas Unedig,

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol

y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, ac

(e) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (d) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (e) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor yn unol â pharagraff 1(4).

(3) Mae i "tiriogaethau tramor yr UE" yr ystyr a roddir gan baragraff 19(5).

Personau o'r tiriogaethau tramor Prydeinig sydd wedi setlo

21.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (3) a (4), person—

(a) sydd—

(i) wedi setlo yn y Deyrnas Unedig,

(ii) yn aelod o deulu person sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig, neu a fyddai'n berson o'r fath pe bai'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig, neu

(iii) yn ddinesydd Prydeinig—

(aa) a anwyd yn Nhiriogaeth Brydeinig Cefnfor India neu, cyn 8 Tachwedd 1965, yn yr ynysoedd hynny a ddynodwyd yn Diriogaeth Brydeinig Cefnfor India ar y dyddiad hwnnw, neu

(bb) sy'n ddisgynnydd uniongyrchol person a anwyd yn Nhiriogaeth Brydeinig Cefnfor India neu, cyn 8 Tachwedd 1965, yn yr ynysoedd hynny a ddynodwyd yn Diriogaeth Brydeinig Cefnfor India ar y dyddiad hwnnw,

(b) sy'n ymgymryd â'r cwrs yn y Deyrnas Unedig,

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig am o leiaf ran o'r cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a'r tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, ac

(e) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a'r tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (d) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (e) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ynysoedd a'r tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig yn unol â pharagraff 1(4).

(3) At ddibenion paragraffau (c) a (d) o is-baragraff (1), trinnir person a grybwyllir ym mharagraff (a)(iii) o is-baragraff (1) fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig mewn unrhyw gyfnod cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs nad yw'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig na'r Ynysoedd ynddo.

(4) Nid yw paragraff (e) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson a grybwyllir ym mharagraff (a)(iii) o'r is-baragraff hwnnw.

(5) Yn y paragraff hwn, ystyr “tiriogaethau tramor Prydeinig penodedig” yw Anguilla; Bermuda; De Georgia ac Ynysoedd Sandwich y De; Gibraltar; Montserrat; St Helena, Ascension a Tristan da Cunha; Tiriogaeth Brydeinig yr Antarctig; Tiriogaeth Brydeinig Cefnfor India; Ynysoedd Cayman; Ynysoedd Falkland; Ynysoedd Pitcairn, Henderson, Ducie ac Oeno; Ynysoedd Turks a Caicos; ac Ynysoedd y Wyryf.

Aelodau o deuluoedd personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig

22.—(1) Person—

(a) sy'n aelod o deulu person sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(b) sy'n ymgymryd â'r cwrs yn y Deyrnas Unedig,

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), na fu'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (d) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd yn unol â pharagraff 1(4).

Personau sy'n preswylio yn Gibraltar

23.—(1) Person—

(a) sydd—

(i) yn wladolyn o'r Deyrnas Unedig a chanddo statws preswylydd yn Gibraltar a roddwyd gan Lywodraeth Gibraltar,

(ii) yn aelod o deulu gwladolyn o'r Deyrnas Unedig, pan fo gan yr aelod hwnnw o'r teulu statws preswylydd yn Gibraltar a roddwyd gan Lywodraeth Gibraltar,

(iii) yn wladolyn UE a chanddo hawl i breswylio yn Gibraltar sy'n codi o dan y cytundeb ymadael â'r UE, neu

(iv) yn aelod o deulu gwladolyn UE, pan fo gan yr aelod hwnnw o'r teulu hawl i breswylio yn Gibraltar sy'n codi o dan y cytundeb ymadael â'r UE,

(b) sy'n ymgymryd â'r cwrs yn y Deyrnas Unedig,

(c) sydd, yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) yn ddarostyngedig i is-baragraff (3), na fu'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor yn ystod unrhyw ran o'r cyfnod y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser.

(2) Nid yw paragraff (c) o is-baragraff (1) yn gymwys i aelod o deulu person—

(a) sy'n wladolyn UE neu'n berson perthnasol o Ogledd Iwerddon, a

(b) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(3) Nid yw paragraff (d) o is-baragraff (1) yn gymwys i berson sy'n cael ei drin fel pe bai'n preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor yn unol â pharagraff 1(4).

Gwladolion UE sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd

24.—(1) Person—

(a) sy'n wladolyn UE ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(b) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) mewn achos pan oedd y preswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) Pan fo gwladwriaeth yn ymaelodi â'r Undeb Ewropeaidd ar ôl diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs a phan fo person yn wladolyn o'r wladwriaeth honno, trinnir y gofyniad ym mharagraff (a) o is-baragraff (1) i fod yn wladolyn UE ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs fel gofyniad sydd wedi ei fodloni.

25. Person sydd â hawliau gwarchodedig—

(a) sy'n wladolyn UE ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(b) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig a'r Ynysoedd drwy gydol y cyfnod o dair blynedd yn union cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) mewn achos pan oedd ei breswylio fel arfer y cyfeirir ato yn is-baragraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato yn is-baragraff (c).

Plant gwladolion Swisaidd

26.—(1) Person—

(a) sy'n blentyn i wladolyn Swisaidd sydd â hawlogaeth i gael cymorth yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd Erthygl 3(6) o Atodiad 1 (Symudiad Rhydd Personau) i Gytundeb y Swistir,

(b) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) mewn achos pan oedd y preswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato ym mharagraff (c).

(2) Mae unrhyw ddisgrifiad o berson a fyddai wedi dod o fewn y paragraff hwn yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu i'w drin fel pe bai'n dod o fewn y paragraff hwn ar ac ar ôl diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu.

27. Person sydd â hawliau gwarchodedig—

(a) sy'n blentyn i wladolyn Swisaidd sydd â hawlogaeth i gael cymorth yn y Deyrnas Unedig yn rhinwedd Erthygl 18(2) o'r cytundeb ar hawliau dinasyddion Swisaidd,

(b) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs,

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) mewn achos pan oedd ei breswylio fel arfer y cyfeirir ato yn is-baragraff (c) yn gyfan gwbl neu'n bennaf at ddiben cael addysg lawnamser, a oedd yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, Gibraltar, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir yn union cyn y cyfnod o breswylio fel arfer y cyfeirir ato yn is-baragraff (c).

Plant gweithwyr Twrcaidd

28.—(1) Person—

(a) sy'n blentyn i weithiwr Twrcaidd,

(b) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, ac

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir, Twrci a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Yn y paragraff hwn ac ym mharagraff 29, ystyr "gweithiwr Twrcaidd" yw gwladolyn Twrcaidd—

(a) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig, a

(b) sy'n cael, neu sydd wedi cael, ei gyflogi'n gyfreithlon yn y Deyrnas Unedig.

29.—(1) Person—

(a) sy'n blentyn i weithiwr Twrcaidd ("T"), pan oedd T yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu,

(b) a oedd, yn union cyn diwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu—

(i) yn blentyn i T, a

(ii) yn preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig,

(c) sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs, a

(d) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Deyrnas Unedig, yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir, Twrci a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Mae i "gweithiwr Twrcaidd" yr ystyr a roddir gan baragraff 28(2).

© Hawlfraint y Goron 2026

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd y Brenin ar gyfer Cymru.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2026 No. 52

EDUCATION, WALES

The Higher Education (Qualifying Courses and Qualifying Persons) (Wales) Regulations 2026

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

These Regulations specify the qualifying courses and qualifying persons for the purposes of section 32 of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022 ("the 2022 Act").

Section 32 of the 2022 Act requires the Commission for Tertiary Education and Research ("the Commission") to ensure that tertiary education providers which are registered in a category specified in regulations made by the Welsh Ministers are subject to a fee limit condition. That category of registration is specified in regulation 5 of the Commission for Tertiary Education and Research (Registration and De-registration of Tertiary Education Providers in Wales) Regulations 2024.

A fee limit condition requires such providers to—

(a) have a fee limit statement approved by the Commission under section 47 of the 2022 Act, and

(b) ensure that the fees payable to the provider by a qualifying person undertaking a qualifying course do not exceed the applicable fee limit specified in, or determined in accordance with, the fee limit statement.

The qualifying courses specified by regulation 3 are those courses that are listed in Condition 1 and which are designated by regulations made under section 22 of the Teaching and Higher Education Act 1998. Designation under those regulations means that students can apply for student support in respect of undertaking a course. There are exceptions relating to part-time courses and the provision of courses by persons on behalf of a registered provider.

The qualifying persons specified by regulation 4 are those persons who fall within any of the categories in the Schedule on the first day of the relevant academic year. This is subject to five exceptions, which are set out in paragraph (3).

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, it was not considered necessary to carry out a regulatory impact assessment as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations.

2026 No. 52

EDUCATION, WALES

The Higher Education (Qualifying Courses and Qualifying Persons) (Wales) Regulations 2026

Made	*25 February 2026*
Coming into force	*1 April 2026*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred on them by sections 32(4) and (9)(b) and 143(2) of the Tertiary Education and Research (Wales) Act 2022(**1**), make the following Regulations.

Title and coming into force

1.—(1) The title of these Regulations is the Higher Education (Qualifying Courses and Qualifying Persons) (Wales) Regulations 2026.

(2) These Regulations come into force on 1 April 2026.

Interpretation

2. In these Regulations—

"the 1998 Act" ("*Deddf 1998*") means the Teaching and Higher Education Act 1998(**2**);

